

No.

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021

Mae'r Agenda ar gael [yma](#). [Insert link]

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#). [Insert link]

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorydd S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr V.J. Bailey, P. Drake, V.P. Driscoll, G. John, M.J.G. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth), N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

547 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

548 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

549 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd Driscoll fuddiant ynghlwm ag Eitem 6 ar yr Agenda - Archwilydd Cyffredinol Cymru: Adolygiad o Adfywio Canol Trefi yng Nghymru. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Driscoll yn berchen ar sawl eiddo ar Heol Holltwn. Oherwydd natur y diddordeb, tynnodd y Cynghorydd Driscoll yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

550 CYFLWYNIAD - DIWEDDARIAD BLYNYDDOL MONITRO ARFORDIROL -

Cyflwynwyd yr eitem gan Reolwr Rhaglen Canolfan Monitro Arfordirol Cymru, a hysbysodd y Pwyllgor o'r pwyntiau allweddol canlynol:

No.

- Ariannwyd Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn llawn gan Lywodraeth Cymru (LIC) o'r gyllideb Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (RhPLIEA);
- Gwnaed achos busnes yn llwyddiannus gan gonsortiw m a oedd yn cynnwys Cynghorau Bro Morgannwg, Gwynedd a Chonwy gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) er mwyn sefydlu'r Ganolfan yn ôl yn 2017; oherwydd hyn, roedd dau aelod o staff llawn amser ar gyfer hyn wedi'u cyflogi yn y Fro ers 2019; adroddodd Rheolwr y Rhaglen yn ôl i'r consortiw m, ac roedd Panel Cynghori gan gynnwys Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Network Rail, Llywodraeth Cymru, a Chadeiryddion y Grwpiau Arfordirol;
- Rhoddwyd hwb i staff a gweithlu'r Ganolfan (cyfanswm o chwe aelod o staff) gan ychwanegu cynllun lleoliadau israddedig mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth a'r Cynllun Kickstart. Oherwydd bod y ddau aelod o staff craidd wedi'u lleoli yng Nghyngor Bro Morgannwg, roedd perthynas agos wedi'i hadeiladu gyda staff y Cyngor a Thimau Arolwg o fewn y Cyngor, a oedd hefyd wedi cael eu hyfforddi gan y Ganolfan er mwyn helpu i fonitro traethau;
- Rôl y Ganolfan yn y pen draw oedd casglu data ynghylch statws ardaloedd arfordirol Cymru er mwyn diwallu anghenion y cyhoedd a datblygu dull strategol o fonitro arfordir Cymru, cefnogi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a gwaith Awdurdodau Lleol Morol eraill drwy ddarparu'r sylfaen dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer rheoli risg arfordirol a gwneud penderfyniadau;
- Byddai'r strategaeth hon yn cael ei chyflawni drwy raglen gost-effeithiol, datblygu gwybodaeth a sgiliau o fewn awdurdodau lleol a sicrhau bod y data wedi'i goladu ar gael ar y rhyngwyd at sylw'r cyhoedd a phrifysgolion;
- Rôl Canolfan Monitro Arfordirol Cymru oedd monitro erydu arfordirol, ymateb arfordirol i lifogydd ac 'ymchwydd stormydd' a'u heffeithiau er mwyn helpu i liniaru'r rhain;
- Ar hyn o bryd, roedd pedwar grŵp arfordirol yng Nghymru a oedd yn rheoli arfordiroedd mewn ffordd gydweithredol, drawsffiniol fel rhan o'u Cynlluniau Rheoli Traethlin ar y cyd â'r unedau polisi priodol;
- Fel rhan o'r unedau polisi, defnyddiwyd methodoleg sy'n seiliedig ar risg i asesu'r gwahanol agweddau ar risg ar arfordiroedd lleol, megis erydu arfordirol, er mwyn creu darlun parhaus o sefyllfa'r ardaloedd arfordirol hyn a lefel yr ymyrraeth a oedd yn ofynnol (ai peidio) ac i nodi risg uchel (h.y. arfordir isel), ardaloedd poblogaeth uchel. Roedd y Fro o fewn lefel gymharol isel o risg yn seiliedig ar asesiadau cyfredol. Edrychwyd ar hyn dros 10, 20, 100 mlynedd;
- Defnyddiwyd model safonol, integredig o gasglu data bellach ar gyfer yr holl awdurdodau lleol perthnasol ynghylch erydu arfordirol, ac ati. Roedd hyn yn gwbl groes i'r model a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan Gynghorau a gasglodd ddata ar wahân;
- O ran technegau / cydweithrediadau arolygu, roedd robotiaid cywirdeb uchel ond cost isel wedi'u datblygu ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth er mwyn cynnal arolygon a chasglu data ar ardaloedd arfordirol yn annibynnol, yn ogystal â sganiwr laser symudol a mwy o ddefnydd o gerbydau trydan;

No.

- Ers 2019 cynhaliwyd arolygon ac roedd data wedi'i gasglu ar wahanol safleoedd ar draws y Fro, yn enwedig safleoedd allweddol fel Aberddawan, Aberogwr, Llanilltud Fawr yn ogystal â Phenarth a allai fod mewn mwy o berygl o erydu arfordirol, ac ati. Er bod daeareg y Fro yn golygu bod y risg o erydu arfordirol yn gymharol isel;
- Roedd Canolfan Monitro Arfordirol Cymru wedi'i chofrestru i system rhybuddion llifogydd arfordirol CNC yn ogystal ag yn cydweithio â Phrifysgol Plymouth a oedd hefyd yn gwneud gwaith monitro tebyg;
- Bu Canolfan Monitro Arfordirol Cymru hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd er mwyn rhoi gwybod i blant am newid yn yr hinsawdd mewn ffordd addysgiadol ond llai 'brawychus' fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, cafodd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol eu codi gan y Pwyllgor:

- Dywedodd y Cynghorydd Driscoll mai ateb i'r costau uchel sy'n gysylltiedig â chael mwy o amddiffynfeydd arfordirol a chynlluniau pŵer Morol (gyda'r ddau yn tueddu i gael eu lleoli ger ei gilydd ac yn agos at ardaloedd sy'n profi erydu arfordirol) fyddai eu cyfuno mewn rhyw ffordd er mwyn rhannu costau, ac ati. Atebodd Rheolwr Rhaglen Canolfan Monitro Arfordirol Cymru fod hwn yn syniad da a'i fod wedi cael ei ystyried ar gyfer ardal ar ochr Saesneg Aber Afon Hafren, gan ychwanegu y gallai hyn fod yn rhywbeth i'r Fro ei ystyried yn y dyfodol.
- Ymatebwyd i ymholiad y Cynghorydd Wiliam ar adrodd yn rheolaidd ar y pwnc hwn i'r Pwyllgor, gan gadarnhau y byddai adroddiadau pellach yn cael eu darparu. Roedd cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rolau Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn golygu y byddai'r prosiect yn mynd rhagddo tan o leiaf 2026, gan roi mwy o amser i gasglu a dadansoddi data safonol ynghylch erydu arfordirol, ac ati, ac i nodi tueddiadau tymor hwy. O ran ymholiad dilynol y Cynghorydd ar lefelau tywod yn y Fro ac unrhyw effeithiau o garthu, atebodd y Swyddog y byddai angen casglu data hirdymor er mwyn asesu'n briodol yr amrywiad mewn lefelau tywod naturiol.
- O ran cwestiwn y Cadeirydd ar wella cywirdeb data, cytunodd y Swyddog y byddai hyn yn gwella gan fod data mwy cynhwysfawr a safonol yn cael ei gasglu gan y Ganolfan.
- Gofynnodd y Cynghorydd Robertson beth fyddai'r polisi yn y pen draw i fynd i'r afael ag erydu arfordirol y Fro yn seiliedig ar y data sy'n cael ei gasglu; a fyddai'n ddull mwy ymyraethol o fynd i'r afael â hyn, neu i dderbyn ac addasu a thrwy hynny adael i natur wneud ei gwaith, megis addasiadau'n cael eu cymhwyso mewn ardaloedd arfordirol mewn rhannau o Loegr. Atebodd y Swyddog fod y Cynlluniau Rheoli Traethlin a ddangoswyd i'r Pwyllgor yn edrych ar ffactorau o'r fath ac ychwanegodd y byddai lefelau'r môr yn parhau i godi yn y pen draw; yn ffodus, roedd y Fro mewn sefyllfa gymharol dda o ran erydu arfordirol a llifogydd o'i gymharu â Chynghorau eraill Cymru. Byddai'r unedau polisi unigol yn edrych ar anghenion arfordirol lleol a pha amddiffynfeydd neu addasiadau oedd eu hangen, os o gwbl.
- Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth bwysigrwydd y Ganolfan a'i monitro cynhwysfawr er mwyn

No.

helpu Cyngorau Cymru i wneud penderfyniadau ar ddelio ag erydu arfordirol.

- Cododd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau yr ymholiad am ddata blaenorol, hanesyddol neu etifeddol a gasglwyd gan grwpiau arfordirol blaenorol yn y Fro ac a oedd y rhain yn dal i gael eu cadw a'u defnyddio; atebodd y Swyddog fod data o'r fath wedi'i gadw ac y gellid ei ddefnyddio i helpu i lywio gwaith Canolfan Monitro Arfordirol Cymru, ond roedd hyn mewn amrywiaeth eang o fformatau a byddai'n cymryd amser i fynd drwy'r cyfan. Ar hyn o bryd, y bwriad yw defnyddio staff a gyflogwyd drwy'r cynllun Kickstart i helpu i fynd drwy'r data hanesyddol hwn. O ran pwynt arall yr Arweinydd ar Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru (NCT 15) ynghylch datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol ac a oedd Canolfan Monitro Arfordirol Cymru wedi bod yn ymwneud â chynghori ar hyn, atebodd y Swyddog nad oedd y Ganolfan wedi cymryd rhan ac roedd y model perygl llifogydd llanw a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i hysbysu'r hysbysiad hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio gan Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru ac wedi'i ddarparu gan CNC. Ychwanegodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod NCT 15 ar wahân i drosolwg Canolfan Monitro Arfordirol Cymru o erydu arfordirol ac yn edrych ar effaith ehangach newid yn yr hinsawdd ac yn cymhwysu hyn i beryglon posibl o lifogydd. Roedd rhai cwestiynau o ran oedran a chywirdeb y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r mapiau llifogydd ynghlwm wrth NCT 15 ac roedd hyn wedi'i drosglwyddo'n ôl i LIC.
- Gofynnodd y Cyngorydd Drake a oedd y newidiadau i ansawdd y môr yn effeithio ar erydu arfordirol, atebodd Rheolwr Rhaglen Canolfan Monitro Arfordirol Cymru nad oedd yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth yn edrych ar yr effeithiau ar erydu arfordirol oherwydd llygredd dŵr.

ARGYMHELLWYD – BOD y cyflwyniad ar y Diweddariad Blynnyddol ar Fonitro'r Arfordir yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

551 PROSIECT SERO – CYFLAWNI'R CYNLLUN HER NEWID HINSAWDD (CYF) -

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet o 25 Hydref, 2021 ei gyflwyno gan y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes:

- Roedd hwn yn ddiweddariad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu dull y Cyngor o gyflawni'r Cynllun Her Newid Hinsawdd, gan gynnwys llywodraethu a chyflawni;
- Fel cefndir, roedd y Cyngor wedi datgan 'argyfwng hinsawdd' ym mis Gorffennaf 2019; ac yna 'argyfwng natur' ym mis Gorffennaf 2021;
- Cafodd y Cynllun Her Newid Hinsawdd hefyd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021 a oedd yn nodi'r camau ar sut y byddai'r Cyngor yn lleihau allyriadau carbon i sero net erbyn 2030 ond hefyd yn cynnwys rôl y

No.

Cyngor o ran darparu arweinyddiaeth gymunedol ac anogaeth ar gyfer newidiadau ehangach mewn ymddygiad yn y Fro a fydd yn lleihau allyriadau carbon cyffredinol y sir;

- Roedd Prosiect Sero a'r Cynllun Her Newid Hinsawdd yn ategu, yn hytrach na disodli, gynlluniau neu ddyletswyddau statudol eraill, drwy nodi'r hyn yr oedd ei angen i leihau allyriadau carbon ar draws y Cyngor a'r gymuned ehangach yn ogystal â'r meysydd allweddol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy o amgylch hyn, megis ynni, caffael, trafndiaeth a mannau gwyrdd;
- Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Sero newydd a oedd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Ail-lunio ac yn y pen draw i'r Cabinet, yn ogystal â chael ei oruchwylio a'i graffu gan y Pwyllgor hwn a Pherfformiad ac Adnoddau Corfforaethol;
- Roedd briff prosiect wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, a oedd yn nodi'r strwythur ar sut y byddai'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu, h.y. mae'r deunaw her a gynhwysir yn y Cynllun Her wedi'u neilltuo i Uwch Swyddog Adrodd (USA). Bydd yr USAau yn datblygu cynlluniau penodol a manwl ar gyfer eu hardaloedd a bydd y bwrdd prosiect perthnasol yn cyfarfod bob yn ail fis yn y Bwrdd a gadeirir gan y Rheolwr Gyfarwyddwr;
- Sefydlwyd Tîm Cymorth Prosiect hefyd er mwyn cydlynu'r gwaith a chefnogi'r ymrwymadau gan gynnwys timau Cyllid, Hyfforddiant ac Ynni o fewn y Cyngor;
- Roedd gwaith eisoes wedi dechrau a chynhaliwyd trafodaethau ar sut i annog a chreu momentwm ar gyfer newidiadau o'r fath o fewn Tai a Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, yn ogystal ag annog teithio llesol a gosod mannau gwefru ceir trydan ledled y Fro;
- Roedd y timau o fewn Ystadau wedi gweithio'n eithriadol o galed i gwblhau'r ffurflen ddata gyntaf i ddatblygu 'llinell sylfaen' ar gyfer allyriadau'r Cyngor gan ddefnyddio 'becyn cymorth' Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn helpu i nodi ble y byddai'r effeithiau mwyaf a byddent yn cael eu hategu gan gymorth arbenigol allanol yn ôl yr angen;
- Bu ymgysylltu parhaus â'r gymuned ehangach, gyda'r Cyngor yn cynnig arweiniad wrth helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, megis cysylltu ag ysgolion lleol, grwpiau cymunedol ('Llysgenhadon Gwyrdd') a Chynghorau Tref a Chymuned Lleol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, cafodd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol eu codi gan y Pwyllgor:

- O ran cwestiwn y Cynghorydd Sivagnanam ynghylch pa mor aml y byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariadau pellach ar Brosiect Sero a chyflawni'r Cynllun Newid yn yr Hinsawdd, atebodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes y byddai'n cydgysylltu â Gwasanaethau Democrataidd a'r Cabinet ar ddarparu'r rhain. Awgrymodd ddarparu adroddiadau o'r fath dair gwaith y flwyddyn i'r Cabinet ac yna cyfeiriodd at y Pwyllgorau Craffu perthnasol;
- O ran cwestiynau'r Cynghorydd Robertson:
 - O ran sut y byddai'r Cyngor yn gwybod pryd y cyrhaeddwyd sero net, esboniwyd y byddai hynny'n cael ei wireddu, yn gyntaf, o ran effaith y Cyngor, drwy 'becyn cymorth' Llywodraeth Cymru gan y Cyngor yn darparu'r data priodol i Lywodraeth Cymru er mwyn asesu ei ôl troed carbon a'i effaith yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol h.y. drwy ei gadwyn gyflenwi. Yn ail, ar lefel sirol ehangach, byddai hyn yn cael ei

No.

wneud drwy rôl arweinyddiaeth gymunedol y Cyngor a byddai'r Awdurdod yn gweithio gydag eraill i leihau ei allyriadau carbon, ond roedd tipyn i'w wneud o hyd i fesur hyn. Byddai manylion model yr IPCC (y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd) y gellid ei ddefnyddio er mwyn mesur hyn yn cael ei rannu â'r Pwyllgor.

- O ran yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud er mwyn mynd i'r afael â llygryddion eraill, esboniwyd bod cynlluniau, polisiâu a mesuriadau eisoes ar waith ar gyfer materion o'r fath, megis Blaenraglen Waith ar gyfer Bioamrywiaeth a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lygredd aer. Hefyd, roedd y Cyngor a'r Ddinas-ranbarth yn siarad â busnesau i hyrwyddo symud i leihau carbon, megis drwy Glwstwr Diwydiannol De Cymru (gan gynnwys Tarmac a Tata) a allai gael gafael ar gyllid a chael cymorth drwy'r sector cyhoeddus er mwyn lleihau eu hallyriadau a symud tuag at economi nad yw'n seiliedig ar danwydd ffosil, gan ddefnyddio technolegau megis drwy ddal carbon a datblygu hydrogen fel tanwydd.
- Rhannodd yr Arweinydd a'r Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes hyperddolenni gyda'r Pwyllgor ar sut y gellid mesur Sero Net ac allyriadau.
- Ailadroddodd y Cadeirydd y dylid gwneud argymhelliad i'r adroddiad hwn ddod yn ôl i'r Cabinet ac yna'r pwyllgorau Craffu perthnasol bob pedwar mis (teirgwaith y flwyddyn).

ARGYMHELLWYD – BOD adroddiadau pellach ar Brosiect Sero yn cael eu darparu i'r Cabinet deirgwaith y flwyddyn, gyda'r adroddiadau wedyn yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w hystyried.

Rheswm dros yr argymhelliad

Galluogi'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a Phwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i ystyried deirgwaith y flwyddyn sut mae Prosiect Sero yn cael ei ddatblygu.

552 ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU: ADOLYGIAD O ADFYWIO CANOL Y DREF YNG NGHYMRU (RG) –

Diben yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio, oedd cynghori'r Aelodau am ganfyddiadau adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o adfywio canol trefi yng Nghymru ac ymateb y Cyngor i'w ganfyddiadau:

- Cynhaliwyd adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Adfywio Canol Trefi yng Nghymru rhwng mis Hydref 2020 a mis Mai 2021 gyda'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi ym mis Medi 2021;
- Roedd yr adolygiad wedi ystyried sut mae canol trefi wedi newid dros y blynyddoedd, canol trefi heddiw a'r her o adfywio canol trefi yn y dyfodol, a daeth i'r casgliad:

- Fod dewisiadau polisi cenedlaethol y gorffennol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn cael effaith andwyol ar lawer o ganol trefi Cymru;
- Roedd busnesau wedi cael cefnogaeth dda yn ystod y pandemig, ond nid oedd gan rai awdurdodau lleol y sgiliau, y capasiti a'r adnoddau i helpu i greu canol trefi cynaliadwy er gwaethaf cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.
- Parhaodd canol trefi i chwarae rhan bwysig wrth wraidd bywyd Cymru, ond roedd angen i lywodraeth leol a chenedlaethol yrru agenda adfywio uchelgeisiol i helpu i greu lleoedd cynaliadwy;
- Gwnaeth yr adroddiad chwe argymhelliad i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru:
 - Llywodraeth Cymru i adolygu Ardrethi Annomestig er mwyn sicrhau bod y system yn adlewyrchu amodau canol trefi yn well pan ddaeth y gwyliau taliadau i ben ym mis Mawrth 2022.
 - Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu heriau trafndiaeth sy'n wynebu canol trefi a chytuno ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain.
 - Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu cyllid i leihau biwrocratiaeth drwy symleiddio prosesau ac amodau grant a chadw ceisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol cyn lleied â phosibl; symud i ffwrdd o gylchoedd ymgeisio blynyddol i ddyraniadau aml-flwyddyn; ac ail-gydbwysu buddsoddiad o gyfalaf i refeniw i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phrinder gallu a sgiliau staff.
 - Awdurdodau lleol i gymryd camau priodol, gan ddefnyddio'r pwerau a'r adnoddau presennol sydd ar gael i sicrhau'r canlyniad gorau posibl o ran adeiladau gwag ac adfeiliedig yng nghanol trefi drwy: ddefnyddio dulliau gorfodi amgen cyn defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol fel dewis olaf; integreiddio strategaethau gorfodi â strategaethau adrannol ehangach ar draws timau tai, iechyd yr amgylchedd, cynllunio ac adfywio i wneud defnydd effeithiol o sgiliau ac adnoddau presennol; a sicrhau bod capasiti a'r arbenigedd cywir i ddefnyddio'r ystod lawn o bwerau, gan gydweithio â Chynghorau eraill i sicrhau canlyniadau da.
 - Llywodraeth Cymru i nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei dull 'Canol Trefi yn Gyntaf', ei disgwyliadau o ran partneriaid a'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd i wireddu'r uchelgais hwn.
 - Awdurdodau lleol i ddefnyddio offeryn adfywio Archwilio Cymru i hunanasesu eu dulliau presennol o nodi lle mae angen iddynt wella eu gwaith ar adfywio canol trefi.
- O ran argymhelliad 3, roedd Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli'r angen i helpu Cynghorau drwy wella a symleiddio eu ffrydiau ariannu yn ogystal â symud eu ffocws drwy symud i ffwrdd o dargedu canol trefi penodol i ganolbwyntio ar bob canol tref yng Nghymru, a fyddai o fudd i bob canol tref yn y Fro a oedd yn derbyn llai o arian na'r Barri yn hanesyddol;
- Roedd y Cyngor wedi cynhyrchu ymateb / strategaeth o ganlyniad i'r adroddiad hwn ac fe'i cynhwyswyd yn atodiad B;
- Mewn ymateb i argymhelliad 2 (yn ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth ar gyfer canol trefi), roedd y Cyngor yn cadw meysydd parcio am ddim am hyd at 2 awr ym mhob un o feysydd parcio Canol Tref y Cyngor. Roedd yn ymddangos bod codi tâl am gyfnodau hirach o barcio yng nghanol trefi yn y

No.

Fro wedi creu mwy o 'drosiant' gan arwain at fwy o hygyrchedd i yrwyr. Roedd y Cyngor hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gwella trafndiaeth a seilwaith arall yng nghanol trefi. Roedd cyllid a grantiau bellach yn cael eu lledaenu ledled holl ganol trefi'r Fro, oherwydd mwy o hyblygrwydd gan Lywodraeth Cymru o ran sut y gellid dosbarthu cyllid o'r fath;

- O ran yr argymhelliad ar gamau gorfodi ar adeiladau gwag yng nghanol trefi er mwyn eu dychwelyd i ddefnydd, roedd gwaith yn cael ei wneud gan Swyddogion Cynllunio ac Adfywio er mwyn cyflawni hyn, gyda llwyddiant sylweddol eisoes wedi'i gyflawni drwy ddefnyddio benthyciadau neu weithio gyda pherchnogion i sicrhau newidiadau i ddefnydd yr adeiladau;
- Ar y cyfan, roedd canol trefi yn y Fro yn gwneud yn well na llawer o ganol trefi eraill mewn mannau eraill yng Nghymru o ran cyfraddau adeiladau gwag, er gwaethaf y pandemig. Fodd bynnag, byddai'r canol trefi hynny yn y Fro a allai fod, o'u cymharu ag eraill, yn profi rhai anawsterau yn y maes hwn, megis y Barri (Heol Holltwn) a'r Bont-faen yn cael cymorth, er enghraifft, drwy gael benthyciadau a chyllid arall drwy Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, cafodd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol eu codi gan y Pwyllgor:

- Dywedodd y Cynghorydd John, er gwaethaf cyfraddau defnydd uchel, fod llawer o ganol trefi yn y Fro yn dal i gael trafferthion (er gwaethaf y gwaith a wnaed gan fusnesau lleol i ddenu cwsmeriaid) oherwydd canolfannau siopa y tu allan i'r dref a siopau mawr yn diflannu o'r trefi. Byddai newid yn yr hinsawdd yn gofyn am fwy o ymdrech i brynu ac i siopa'n lleol ac roedd angen denu defnyddwyr a busnesau yn ôl i ganol y dref. Cytunodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio, gan ddweud bod yr adroddiad hefyd wedi gwneud casgliadau tebyg am effaith manwerthu y tu allan i'r dref ar ganol trefi, a waethygir gan y twf mewn siopa ar-lein. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod dyddiau'r manwerthwyr cenedlaethol mawr yng nghanol trefi yn dod i ben, gyda Llywodraeth Cymru yn argymhell dull mwy hyblyg o ddefnyddio adeiladau yng nghanol trefi a mwy o ddefnydd o'r lleoliadau hyn ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus, megis lleoli colegau addysg bellach a chanolfannau iechyd yno ('canolfannau defnydd cymysg'), a allai ddenu pobl yn ôl i ganol trefi, megis yng Nghynllun Porth y Barri.
- Cymeradwyodd y Cynghorydd Robertson bwyslais yr adroddiad ar hyblygrwydd wrth ddatblygu canol trefi, newid defnydd a thrafnidiaeth ond roedd yn cyferbynnu hyn â'r dull mwy caeth a gymerodd y Cyngor weithiau o ran ceisiadau cynllunio. Cyfeiriodd hefyd at y materion sy'n ymwneud â chau canghennau banc a swyddfeydd post mewn trefi a chanolfannau lleol. Teimlai fod y ffaith nad oedd gan y Barri Ardal Gwella Busnes (AGB) yn anffodus. Atebodd y Cadeirydd a'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod Cyngor y Barri a busnesau lleol eisoes wedi gwrthod y cyfle i greu AGB ar gyfer y Barri, a chytunodd y Cadeirydd ynghylch cau banciau, gan awgrymu y gellid defnyddio model 'aml-fanc' a'i letya yng nghanol trefi. Ychwanegodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod y Cyngor wedi mabwysiadu mwy o newidiadau a hyblygrwydd o ran defnydd ar gyfer adeiladau yng nghanol trefi dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd â hyn ymhellach drwy adolygu'r polisïau

sy'n diogelu'r defnydd o eiddo canol trefi at ddibenion manwerthu yn unig. Byddai'r Cyngor yn ceisio hwyluso polisi trafndiaeth integredig yn y Fro, megis datblygu canolfan drafnidiaeth integredig yn y Barri. Cymerodd newidiadau o'r fath amser gan fod angen cynnwys gwahanol gyrrff a busnesau yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar ardrethi busnes canol trefi a allai helpu i wella'r sefyllfa hefyd. O ran banciau, nid oedd yr adroddiad yn mynd i unrhyw ddyfnder am hyn, ond roedd swyddfeydd post yn cynnig gwasanaethau bancio sylfaenol, ond roedd hyn yn dibynnu arnynt yn aros mewn canol trefi lleol hefyd. O ran Ardaloedd Gwella Busnes, roedd her o ran cael busnesau lleol a grwpiau buddiant eraill i wneud cais am hyn, a welwyd yn y Barri, lle'r oedd gan wahanol leoliadau / canolfannau (Heol Holltwn, Stryd Fawr) safbwyntiau gwahanol.

- Ar y pwynt uchod, awgrymodd y Cynghorydd Wiliam y gallai Siambr Fasnach unedig ar gyfer y Barri helpu gyda'r materion a grybwyllir uchod. At hynny, byddai'n croesawu fflatiau o ansawdd uchel uwchben siopau boutique yng nghanol trefi'r Barri, yn hytrach na fflatiau gwely nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a phwysleisiodd yr angen i fynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol a effeithiodd ar nifer yr ymwelwyr ar ardaloedd fel Heol Holltwn yn ogystal â chanfyddiadau'r cyhoedd o hygrychedd i siopau yn yr ardaloedd hyn. Roedd hefyd angen awdurdod marchnata hyd braich ar gyfer y Barri. Eglurodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod y materion a godwyd gan y Cynghorydd yn cael sylw, h.y. roedd cyllid o £500,000 wedi'i sicrhau ar gyfer camerâu teledu cylch cyfyng newydd yn Heol Holltwn ar y cyd â Heddlu De Cymru i wneud y lleoliad yn fwy diogel. Hefyd, cynhaliwyd rhaglen ddigwyddiadau a strategaeth farchnata gynhwysfawr gan Gyngor Bro Morgannwg ar y cyd â Chyngor Tref y Barri ar gyfer y Nadolig er mwyn annog mwy o bresenoldeb cyhoeddus yng nghanol y Barri.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Bailey yr angen i chwalu'r rhwystrau rhwng gwahanol ganol trefi megis gyda Heol Holltwn a'r Stryd Fawr a'r angen i annog mwy o siopau bach, annibynnol, 'boutique' a fflatiau o safon ar Heol Holltwn.
- Amlinellodd y Cynghorydd Morgan yr heriau a wynebir gan y Cynghorau wrth geisio ymgysylltu â phobl leol ynghylch datblygu canol trefi a holodd sut y gellid gwella ymgynghoriadau er mwyn gwella ymgysylltiad.
- Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan y Cynghorwyr Bailey a Morgan, eglurodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod 'Bwrdd Lle' wedi'i sefydlu yn y Barri yn cynnwys gwahanol bartïon â diddordeb megis masnachwyr o Heol Holltwn a'r Stryd Fawr, a oedd yn lled annibynnol ar y Cyngor ac wedi helpu i lywio cyllid i feysydd fel arwyddion a goleuadau er mwyn nodi llwybrau'n well ar gyfer canol trefi. Roedd y berthynas rhwng y Cyngor a masnachwyr ar Heol Holltwn a'r Stryd Fawr hefyd wedi gwella, gyda rhwystrau wedi'u chwalu.
- O ran ymholiad y Cadeirydd ar wella diogelwch menywod yng nghanol trefi, yn enwedig mewn cysylltiad â'r economi nos, eglurodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio fod Tîm Diogelwch Cymunedol y Fro wedi bod yn gweithio ar gynlluniau gyda Heddlu De Cymru ac eraill er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd megis sicrhau cyllid ar gyfer teledu cylch cyfyng a gellid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r Pwyllgor yn ddiweddarach.

No.

Ychwanegodd y Cynghorydd Robertson, yn ogystal â theledu cylch cyfyng, fod angen mwy o batrolau traed yr heddlu yng nghanol y dref a fyddai hefyd yn cynyddu diogelwch y cyhoedd.

ARGYMHELLWYD -

(1) BOD y canfyddiadau allweddol sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Adfywio Canol Trefi (Atodiad A) ac ymateb y Cyngor i'r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (Atodiad B) yn cael eu cymeradwyo.

(2) BOD yr adroddiad hwn yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ac yna i'r Cabinet i gymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol i adolygiadau lleol a chenedlaethol ac yn gweithredu meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.